| Datganiad Terfyn Ffioedd | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Prifysgol Bangor |
| Ers pryd ac am ba hyd y mae'r datganiad terfyn ffioedd yn weithredol | 1 Awst 2027 i 31 Gorffennaf 2028 |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| **Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu'r dull o gyfrifo lefel ffioedd ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel ffioedd** | **Lleoliad y cwrs** |
| Uchafswm y ffi reoleiddiedig. | Ar gyfer 2027/28.<br><br>Campysau'r Brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wrecsam.<br><br>• Gradd Baglor Israddedig i fyfyrwyr cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)<br>• Gradd Meistr Integredig i fyfyrwyr cartref<br>• TAR i fyfyrwyr cartref<br><br>Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd rheoleiddiedig ar gyfer 2027/28 ac am unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad o uchafswm y ffi reoleiddiedig y gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ei gwefan. |
| Uchafswm y ffi reoleiddiedig. | Ar gyfer 2027/28.<br><br>Campysau'r Brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wrecsam. |

| | |
|---|---|
| | • Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor.<br><br>Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd rheoleiddiedig ar gyfer 2027/28 ac am unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad o uchafswm y ffi reoleiddiedig y gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ei gwefan. |
| Uchafswm y ffi reoleiddiedig. | Ar gyfer 2027/28.<br><br>Campysau'r Brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wrecsam.<br><br>• Blwyddyn Integredig mewn Diwydiant fel rhan o Raglen Ryngosod<br><br>Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd rheoleiddiedig ar gyfer 2027/28 ac am unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad o uchafswm y ffi reoleiddiedig y gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ei gwefan. |
| Ffi a nodir mewn cytundebau masnachfraint gyda phartneriaid | Caiff ffioedd rhaglenni israddedig a gynigir gan bartneriaid masnachfraint y Brifysgol eu pennu mewn cytundebau gyda'r partneriaid masnachfraint.<br><br>Yn achos rhaglenni sy'n ddarostyngedig i ffi reoleiddiedig, maent yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau ar gynyddu ffioedd rheoleiddiedig a nodir gan Lywodraeth Cymru. Pan gânt eu cynnig am lai na'r uchafswm, gallant fod yn amodol ar adolygiad blynyddol.<br><br>Ar gyfer 2027/28.<br><br>Yn **Coleg Cambria, Campws Iâl:** BA Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ffioedd: £7,500 |

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol

Bydd y Brifysgol yn codi’r **Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig** presennol ar fyfyrwyr cartref llawn amser sy’n dilyn gradd israddedig, gradd meistr integredig neu raglen TAR yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Caiff yr Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig ei lywodraethu gan Lywodraeth Cymru a gellir dod o hyd i'r uchafsymiau cyfredol yma. Bydd unrhyw gynnydd i ffioedd myfyrwyr cartref llawn amser sy’n dilyn gradd israddedig neu raglen TAR yn ystod cyfnod y cynllun hwn ac yn ystod blynyddoedd dilynol y rhaglen ynghlwm wrth unrhyw gynnydd i lefel yr Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y ffioedd cyfanredol am gyfnod cyfan y cwrs yn ddibynnol ar hyd y rhaglen (mae’r rhan fwyaf o raglenni israddedig y Brifysgol yn dair neu bedair blynedd o hyd), a yw’r rhaglen yn cynnwys Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor neu Flwyddyn Integredig mewn Diwydiant fel rhan o Raglen Ryngosod ai peidio, ac a yw’r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig wedi cael ei gynyddu gan Lywodraeth Cymru, fel y nodir uchod.

- Y ffi gyfanredol ar gyfer rhaglen yw swm yr Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig sy'n berthnasol ym mhob blwyddyn o astudio.
  - Tra bo myfyriwr yn dilyn rhaglen, gall Llywodraeth Cymru gynyddu'r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig sy'n berthnasol ym mhob blwyddyn, ac os gwneir hynny bydd y ffi ar gyfer pob blwyddyn sy'n weddill yn codi’n unol â’r cynnydd hwnnw:

    **Ffi gyfanredol = Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn 1 + Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn 2 + Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn 3 (+ Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn 4, lle bo'n berthnasol)**.
  - Pan fo’r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig yn aros yr un fath trwy gyfnod cyfan y rhaglen, gellir byrhau'r fformiwla i:

    **Ffi gyfanredol = Yr Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig × nifer blynyddoedd y rhaglen**.
- Lle mae rhaglen yn cynnwys Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor neu Flwyddyn Integredig mewn Diwydiant fel rhan o Raglen Ryngosod, mae i'r flwyddyn honno ei Huchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig ei hun, a bennir gan Lywodraeth Cymru ar lefel is na'r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig ar gyfer blwyddyn safonol o astudio. Bydd y Brifysgol yn codi'r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig am y math perthnasol o flwyddyn integredig, a chaiff y swm hwnnw ei gynnwys yn y cyfrifiad yn lle’r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig am un flwyddyn safonol.

**Ffi gyfanredol = Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn 1 + Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn 2 + Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig Blwyddyn Integredig + Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig y Flwyddyn Olaf**.

- Ar gyfer rhaglen TAR llawn amser blwyddyn o hyd:

**Ffi gyfanredol = yr Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig am un flwyddyn**.

Darperir manylion am ffioedd dysgu'r Brifysgol ar wefan y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/cy/ffioedd-dysgu) a thrwy e-bost i bob ymgeisydd. Caiff prosbectws y Brifysgol ei argraffu cyn dechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol, a'i ddiben yw cyfeirio darpar fyfyrwyr at wefan y Brifysgol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf lle mae ffioedd yn y cwestiwn. Ar y dudalen we ceir adran benodol ynghylch y ffioedd ar gyfer pob blwyddyn academaidd, a chyhoeddir y cynllun ffioedd a mynediad ochr yn ochr â'r flwyddyn berthnasol unwaith y bydd wedi ei gymeradwyo. Caiff unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd eu cyfathrebu'n uniongyrchol drwy e-bost i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt, ar ôl ymgynghori ag Undeb y Myfyrwyr, a chaiff agweddau perthnasol y tudalennau gwe hefyd eu diweddaru.

Caiff ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig cartref eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Brifysgol yn diwygio'r holl Ffioedd Dysgu Israddedig Cartref yn unol ag unrhyw newid y cawn wybod amdano gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth gyfathrebu unrhyw newid.

Caiff ffioedd rhaglenni israddedig a gynigir gan bartneriaid masnachfraint y Brifysgol eu pennu mewn cytundebau gyda'r partneriaid masnachfraint. Pan gânt eu cynnig am lai na'r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig, gallant fod yn amodol ar adolygiad blynyddol, a allai arwain at gynnydd. Caiff ffi gyfanredol y rhaglenni hyn ei chyfrifo ar yr un sail, gan ddefnyddio'r ffi y cytunwyd arni gyda'r partner ar gyfer pob blwyddyn o astudio yn hytrach na'r Uchafswm Ffioedd Rheoleiddiedig.

## Awdurdodi'r datganiad terfyn ffioedd (angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi datganiadau terfyn ffioedd, mae'r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau bod ymgynghori priodol wedi digwydd gydag undeb myfyrwyr neu gyrff eraill sy’n cynrychioli myfyrwyr sy'n astudio gyda’r darparwr ac yn astudio gyda darparwyr eraill sy’n darparu addysg ar ran y darparwr, a bod yr ymgynghori felly'n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ynghylch y strwythurau ffioedd arfaethedig a'u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant

iii. yn cadarnhau bod costau ychwanegol cyrsiau (e.e. deunyddiau, teithiau maes) wedi eu darparu mewn fformatau hygyrch, megis ar dudalennau gwe cyrsiau neu mewn llythyrau cynnig.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffioedd hwn yn gywir a chyfredol ar adeg ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata y gellir ei wirio;

v. yn cadarnhau fod pob cwrs cymwys sydd â therfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ran y darparwr), ni waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael eu hystyried yn y datganiad hwn;

vi. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol a wnaed i fyfyrwyr yn y datganiad terfyn ffioedd, fel y cafodd ei gymeradwyo gan Medr;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefel y gefnogaeth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau y gellir darparu copi hygyrch o'r datganiad terfyn ffioedd i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| **Cyflwyno'r datganiad terfyn ffioedd i Medr[1]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | Dydd Gwener 19 Mehefin 2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | Mrs Marian Wyn Jones, Cadeirydd y Cyngor |
| Dyddiad: | **19/06/2026** |
| **Cyflwyno'r datganiad terfyn ffioedd terfynol unwaith y bydd Medr wedi cadarnhau nad oes unrhyw faterion pellach i'w datrys (lle bo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | Dydd Mercher 22 Gorffennaf 2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | Mrs Marian Wyn Jones, Cadeirydd y Cyngor |
| Dyddiad: | **30/07/2026** |

[1] **Rhaid** i ddatganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r darparwr fod yn fersiynau a gymeradwywyd gan Medr.